# Gŵyl Serameg Ryngwladol
# International Ceramics Festival

INTERNATIONAL CERAMICS FESTIVAL
GŴYL RHYNGWLADOL SERAMEG

## Gorffennaff 05 - 07 July 2019



Ffoto/Photo Ben Boswell

*Trefnir gan* Grochenwyr Gogledd Cymru, Crocenwyr De Cymru a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

*Organised by* North Wales Potters, South Wales Potters and Aberystwyth Arts Centre

**Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Cymru, DU**

**Aberystwyth Arts Centre Wales, UK**

# Cromartie






## Premier supplier of

Electric Kilns

Pyrometers

Kiln Spares

Kiln Servicing

Potter's Wheels

Pottery Machinery

Clays & Plaster

Casting & Decorating Slips

Wide range of potter's tools

....and much more













**Ask for details of our NEW Touchscreen Controller**

Give us a call on 01782 319435
Email us on enquiries@cromartie.co.uk
**Or view our huge range at cromartiehobbycraft.co.uk**

# Croeso i'r ŵyl Serameg Ryngwladol

Croeso i'r Ŵyl Serameg Ryngwladol 2019. Yn cael ei chynnal bob yn ail flwyddyn, sefydlwyd yr Ŵyl fel gwersyll i grochenwyr Gogledd a De Cymru a hon oedd yr Ŵyl gyntaf yn y DU i nodweddu seramegyddion rhyngwladol yn ôl ym 1987. Mae'r Ŵyl yn adnabyddus am gyflwyno taniadau ysblennydd ac ni chewch eich siomi eto eleni. 'Rydym yn adeiladu ac yn tanio odynau o bob math a maint ac yn mynd un cam ymhellach eleni gyda thaniad dramatig a difyr gyda cherddoriaeth.

Yn 2019, daw ein seramegyddion detholedig o mor bell i ffwrdd â Florida a Siapan ac mor agos â Sir Ddinbych a Sir Benfro. Mae eu gwaith yn amrywio o ddarnau manwl a chywrain i ddarnau mawr trawiadol, yn defnyddio amrediad helaeth o dechnegau. Gallwch weld yr arddangoswyr ar y llwyfan, mewn darlithoedd ac yn eu llefydd gwaith o gwmpas y safle lle maent yn hapus i sgwrsio am eu gwaith a'r prosesau a ddefnyddir.

Yn ogystal, 'rydym yn cyflwyno rhagor o ddarlithoedd a ffilmiau a llawer o arddangosfeydd mewn pob rhan o'r safle, lle y bydd gwaith hefyd ar werth. Cewch chithau hefyd gyfle i fod yn greadigol: gwnewch eich campwaith eich hun yn y babell Claytopia, rhowch sglein ar ddarn a gwyliwch ef yn cael ei danio neu rowch gynnig ar droell y crochenydd. Manteisiwch ar y teithiau tywys ar nos Wener a bore dydd Sadwrn i ddod yn gyfarwydd gyda'r holl weithgareddau ychwanegol sydd ar y safle.

'Rydym wedi gweithio'n galed dros y ddwy flynedd diwethaf i gyflwyno'r Ŵyl orau hyd yma a gobeithiwn y cewch benwythnos wrth eich bodd yn cyfarfod â'r seramegyddion dylanwadol niferus sydd wedi dod at ei gilydd yma yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Sue Barnes, ar ran Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Ŵyl Serameg Ryngwladol

# Welcome to the International Ceramics Festival

Welcome to the 2019 International Ceramics Festival. Held biennially, the Festival had its beginnings as a North and South Wales potters' camp and was the first UK festival to feature international ceramicists back in 1987. The Festival is known for hosting spectacular firings, and this year we don't disappoint. We present the building and firing of kilns large and small and go further with a dramatic and entertaining firing to music.

In 2019, our selected ceramicists come from as far afield as Florida and Japan and as close to home as Denbighshire and Pembrokeshire. Their work varies from finely intricate to impressively large utilising a wide range of techniques. You can see the demonstrators on stage, in lectures and in their stations around the site where they are happy to talk about their work and processes.

In addition, we present further lectures and films and many exhibitions throughout the site, where work will also be available for sale. You too can get creative; make your own masterpiece in the Claytopia tent, glaze a piece and watch it being raku fired or have a go on a potter's wheel. Please take advantage of the site tours on Friday evening and Saturday morning to familiarise yourself with the many on-site extras.

We have worked hard over the last two years to present the best ICF yet and hope you will have a wonderful weekend and enjoy meeting the many influential ceramicists gathered here in Aberystwyth Arts Centre.

Sue Barnes, on behalf of the International Ceramics Festival Board of Directors

# Cynnwys
# Contents

Gwobrau | Awards 4-5

Meistr y Defodau | Master of Ceremonies 6

Gweithgareddau | Activities 7

Arddangoswyr | Demonstrators 8-15

Tanwyr | Firers 15

Darlithoedd | Lectures 16-19

Rhaglen | Programme 20-23

Arddangosfeydd | Exhibitions 24-25

Gwybodaeth gyffredinol | General Information 26

Bwyd a Diod | Food & Drink 27

Stondinau Masnach | Trade Stands 30

Gwybodaeth am y trefnwyr | Organiser Information 31

# Gwobrau

## GWOBR GYFLAWNIAD OES POTTERYCRAFTS 2019

Cyflwynir Gwobr Gyflawniad Oes Potterycrafts, y wobr gyntaf o'i math yn y DU, i gydnabod unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig at hyrwyddo'r celfyddydau serameg yn ystod ei oes. Mae'r rhestr fer ar gyfer y wobr hon yn seiliedig ar gynigiadau a wnaethpwyd gan westeion ac ymwelwyr yn ystod yr Ŵyl flaenorol. Cyflwynwyd Gwobr 2017 i David a Margaret Frith. Yn ystod y penwythnos bydd pawb yn cael y cyfle i enwebu crochenydd ar gyfer Gwobr Gyflawniad Oes 2021 - cynhwysir ffurflen yn eich bag Gŵyl felly postiwch eich enwebiad os gwelwch yn dda yn y blwch arbennig a leolir ar Ddesg Groeso'r Ŵyl.

## GWOBRAU CWMNI POTCLAYS A'R ŴYL SERAMEG RYNGWLADOL AR GYFER GWNEUTHURWYR NEWYDD A'R RHAI SY'N DOD I'R AMLWG 2019

**Y Gystadleuaeth Gwneuthurwyr Newydd a'r Rhai sy'n dod i'r Amlwg**

Sefydlwyd y Gystadleuaeth hon yn 2011. Mae'n gyfle i grochenwyr ac artistiaid o'r DU sy'n gweithio mewn clai, sydd wedi graddio o'r coleg o fewn y pum mlynedd diwethaf, i arddangos eu gwaith yn ystod yr Ŵyl. Mae pedwar crochenydd wedi eu dewis i wneud cyflwyniadau o 15 munud yr un (gan gynnwys sesiwn C&A): Kim Colebrook, Henrietta McPhee, Eusebio Sanchez a Micaela Schoop.

## GWOBR ARTIST YMWELIADOL INSTITIWT CELF SERAMEG JINGDEZHEN SANBAO



Becky Otter (Potclays), Emily Waugh, James Otter (Potclays)

O'r pedwar terfynydd, bydd un yn derbyn Gwobr Artist Ymweliadol a gynhelir yn Institiwt Celf Serameg Jingdezhen Sanbao yn 2020. Gofynnir i ymwelwyr â'r Ŵyl bleidleisio am enillydd o'r pedwar yn seiliedig ar eu cyflwyniadau a'r gwaith a arddangosir ganddynt yn arddangosfa'r Gwneuthurwyr sy'n dod i'r Amlwg. Postiwch eich enwebiad os gwelwch yn dda yn y blwch arbennig ar Ddesg Groeso'r Ŵyl.

## GWOBR BRESWYL STIWDIO SERAMEG RYNGWLADOL KECSKEMÉT A'R ŴYL SERAMEG RYNGWLADOL




Steve Mattison (ICS Kecskemét) Rob Parr

Ers 2017, mae Stiwdio Serameg Ryngwladol (ICS) Kecskemét yn Hwngari wedi cynnig cyfle preswyl sy'n agored i ymarferwyr serameg yn cynnwys y sawl sydd ar ganol eu gyrfaoedd neu sydd wedi dod at faes serameg yn hwyr. Mae rhaglen Artist Preswyl yr ICS yn caniatau i artistiaid weithio yng nghyd-destun gwlad a diwylliant gwahanol. Bydd cyfarwyddwr yr ICS Steve Mattison yn cyflwyno anerchiad ar y rhaglen breswyl a bydd Rob Parr, yr enillydd yn 2017, hefyd yn rhoi cyflwyniad ynglyn â'i brofiad yn Kecskemét. Cyhoeddir enillydd cystadleuaeth 2019 yn ystod y Seremoni Agoriadol.

## CYSTADLEUAETH FFILMIAU BYRION TOP POT SUPPLIES A'R ŴYL SERAMEG RYNGWLADOL

Eleni 'rydym yn gwahodd ceisiadau oddi wrth wneuthurwyr ffilm/artistiaid aml-ddisgyblaethol am ffilmiau byrion sy'n ffocysu'n bennaf ar serameg e.e. ffilmiau ynglyn â'r proses o greu serameg, ffilmiau am grochendai neu seramegyddion, delweddau symudol/animeiddiad gyda serameg neu glai fel y prif ffocws. 'Roedd y gystadleuaeth yn agored yn rhyngwladol a dangosir y ffilmiau a ddetholwyd yn Y Llygad gydol y penwythnos, ac hefyd yn y sinema amser cinio ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Pleidleisiwch am eich hoff ffilm yn y blwch arbennig ar Ddesg Groeso'r Ŵyl.

# Awards

## THE POTTERYCRAFTS LIFETIME ACHIEVEMENT AWARD 2019

POTTERYCRAFTS



David & Margaret Frith, Jim Robison, Lars Tharp

The Potterycrafts Lifetime Achievement Award, the first award of its kind in the UK, is given in recognition of someone who has done much to promote the ceramic arts during their life. The shortlist for this award is selected from proposals made by guests and visitors to the previous festival. The 2017 Award was given to David and Margaret Frith. During the weekend we will be giving everyone the opportunity to nominate a potter for the 2021 Lifetime Achievement Award – there's a form enclosed in your Festival bag so please post your nomination in the special box on the Festival Reception Desk.

## POTCLAYS & ICF NEW AND EMERGING MAKERS AWARDS 2019

The New and Emerging Makers Competition
The Emerging Makers Competition began in 2011. It is an opportunity for UK potters and artists working with clay, who graduated from college within the past five years, to exhibit their work at the Festival. Four makers have been selected to make presentations of 15 minutes each (including a Q&A session): Kim Colebrook, Henrietta McPhee, Eusebio Sanchez and Micaela Schoop.

## JINGDEZHEN SANBAO CERAMIC ART LNSTITUTE FOUNDATION VISITING ARTIST AWARD

From the four finalists, one maker will receive a Visiting Artist Award to take place at the Jingdezhen Sanbao Ceramic Art Institute in 2020. Festival visitors will be asked to vote for a winner from the four Emerging Makers based on their presentations and work on display in the Emerging Maker's exhibition. Please post your nomination in the special box on the Festival Reception Desk.

## INTERNATIONAL CERAMICS STUDIO KECSKEMÉT & ICF RESIDENCY AWARD

Since 2017, the International Ceramics Studio (ICS) Kecskemét, Hungary has offered a residency opportunity open to ceramic practitioners including mid-career and late adopters of ceramics. The ICS Artist-in-Residence program allows artists to work in the context of a different country and culture. ICS director Steve Mattison



Rob Parr

will give a talk about the residency programme and Rob Parr, the 2017 winner will also give a presentation about his experience at Kecskemét. The winner of the 2019 competition will be announced during the Opening Ceremony.

## TOP POT SUPPLIES & ICF SHORT FILM COMPETITION

This year we invited submissions from filmmakers/multi-disciplinary artists for short films whose main focus is ceramics e.g. films about the process of making ceramics, films about potteries or ceramicists as subject matter, moving image/animation where ceramics or clay is a main feature. The competition was open internationally and the selected films will be shown in The Eye throughout the weekend, and also in the cinema during lunchtimes Saturday and Sunday. Please vote for your favourite in the special box on the Festival Reception Desk.

# Meistr y Defodau A Llywydd yr Ŵyl
# Master of Ceremonies and Festival President



## Meistr y Defodau
### Jim Robison
Mae Jim yn Gymrawd etholedig o'r Gymdeithas Crochenwyr Crefft Brydeinig ac yn gyn Gadeirydd  Cymdeithas Crochenwyr y Gogledd. Yn wneuthurwr ac yn addysgwr brwdfrydig, mae Jim wedi cymryd rhan mewn pob Gŵyl yn Aberystwyth a bu'n Feistr y Defodau yn y rhan fwyaf ohonynt. Mae Jim wedi cyfrannau at gyhoeddiadau Serameg ac ef yw awdur Large Scale Ceramics a chyd- awdur Slab Techniques. Wedi'i fagu a'i addysgu yn UDA, symudodd i Swydd Efrog ym 1972, a sefydlodd Oriel a Stiwdio Booth House yn Holmfirth.  Mae'n gweithio'n bennaf gyda slabiau yn defnyddio technegau adeiladu personol wedi eu cyfuno gyda gweadeddau arwyneb anghyffredin yn defnyddio haenau amryfal o glai a sglein.

### Ingrid Murphy
Mae Ingrid Murphy yn artist serameg gweithredol sy'n cydweithio gydag eraill ar hyn o bryd ar dechnolegau prosesau digidol. Mae ganddi brofiad amryfal mewn addysg ac ymarfer serameg yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Hi yw'r pennaeth academaidd ar draws-ddisgyblaeth ar hyn o bryd yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd. Mae ei maes ymchwil yn cynnwys diwylliant y gwneuthurwr ac addysg ryngddisgyblaethol. Ar hyn o bryd mae'n ymgymryd â phrosiect Ymchwil y Cyngor Prydeinig yn Tsieina. Bydd Ingrid hefyd yn rhoi darlith ar ei harddangosfa 'Gweledig ac Anweledig' sy'n dangos yn Oriel 1 (gweler Darlithoedd ac Arddangosfeydd).

## Llywydd yr wyl
### Lars Tharp
Llywydd Anrhydeddus ein Gŵyl yw'r Hanesydd Serameg adnabyddus, Lars Tharp. Astudiodd archaeoleg cynhanesyddol yng Ngholeg Caius, Caergrawnt, ac wedyn ymunodd â chwmni Sotheby, yn arbenigo mewn serameg Dsieineaidd. Trwy ei gwmni Lars Tharp Cyf (www.tharp.co.uk), mae'n cynghori ar bob agwedd o serameg ac ar gaffaeliad, gofal a gwerthu gweithiau celf yn gyffredinol. Mae Lars yn darlledu'n aml ar y teledu ac ar radio (BBC3 a BBC4) ac ymddengys yn rheolaidd fel arbenigwr ar yr Antiques Roadshow. Ym mhob Gŵyl, mae Lars yn cyflwyno darlith a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer yr Ŵyl (gweler Darlithoedd).

## Master of Ceremonies
### Jim Robison
Jim is an elected Fellow of the British Craft Potters Association, former Chair of the Northern Potters Association.  An enthusiastic maker and educator, Jim has taken part in every Aberystwyth Festival and been Master of Ceremonies for most of them. Jim has written for Ceramics publications and is author of Large Scale Ceramics, and co-author of Slab Techniques. Raised and educated in the USA, he moved to Yorkshire in 1972, and established Booth House Gallery and Studio in Holmfirth.  His own work is usually slab built using personal construction techniques combined with unusual surface textures using multiple layers of clay and glaze.

### Ingrid Murphy
Ingrid Murphy is a practising ceramic artist currently collaborating with others on digital fabrication technologies. She has diverse experience in both ceramic education and practice nationally and internationally. She is currently the academic lead for trans-disciplinarity at Cardiff School of Art & Design. Her research is in maker culture and interdisciplinary education. She is currently undertaking a British Council Research project in China. Ingrid will also give a lecture about her exhibition 'Seen and Unseen' showing in Gallery 1 (see Lectures and Exhibitions).

## Festival President
### Lars Tharp
Our Honorary Festival President is the well-known Ceramics Historian, Lars Tharp. He studied prehistoric archaeology at Caius College, Cambridge, and later joined Sotheby's, specialising in Chinese ceramics. Through his company Lars Tharp Ltd (www.tharp.co.uk), he advises on all aspects of ceramics and on the acquisition, care and disposal of art in general. Lars broadcasts frequently on TV and on radio (BBC3 and BBC4) and is a regular expert on the Antiques Roadshow. Every Festival, Lars gives a lecture specially written for the festival (see Lectures).

# Gweithgareddau Activities



## CLAYTOPIA (Piazza)
Pabell weithgareddau lle gall ymwelwyr fwynhau profiad gyda chlai. Bydd staff wrth law i arddangos technegau syml ac i ganiatau i ddwylo bach (a rhai mwy!) greu rhywbeth allan o glai i fynd adref gyda nhw.
Noder: Rhaid i rieni/gofalwyr warchod eu plant bob amser yn y babell hon.
**Ar agor dydd Sadwrn 10am - 5pm, dydd Sul 10am - 4pm**

## ODYN RAKU (Cwrt y Capel)
Eleni bydd Rob Whitfield yn cynnal odyn raku, lle bydd powlenni sydd wedi eu creu eisoes ar gael, am gost resymol, i chi eu haddurno a'u gwylio'n cael eu tanio. Crëwch Swfenîr o'r Ŵyl i fynd adre gyda chi!

## SESIWN TRAFOD I GROCHENWYR
**(Stiwdio Crochenwaith, lefel 1)**
Bydd Joe Finch a David Small yn arwain Sesiwn Trafod i Grochenwyr yn ystod y penwythnos yn cynnig cyngor ac yn arddangos offer a thechnegau a ddysgwyd ganddynt ar draws 100 mlynedd o brofiad rhyngddynt. I gadarnhau'r amseroedd, holwch wrth y Ddesg Groeso.

## ARDDANGOSIADAU'R STONDINAU MASNACH (Cwrt y Capel)
Bydd cwmni Potclays, mewn cydweithrediad â Todd Hickerson a Tom Knowles Jackson, yn arddangos cynnyrch Mayco a'r droell fomentwm McMeekin newydd. I gadarnhau'r amseroedd, gweler yr hysbysfwrdd y tu allan i Babell y Stondinau Masnach neu holwch wrth y Ddesg Groeso.
Gweler hefyd Arddangosiadau gan Fyfyrwyr.

## ADLONIANT NOS SADWRN (Bar y Theatr)
Cerddoriaeth fyw o 9pm i fyny'r grisiau ym Mar Canolfan y Celfyddydau. Mae Tongue 'n Groove yn chwarae ychydig o bopeth o Ffync, Enaid, Rhythm a'r Felan i Rock a Rôl. Bydd DJ Badly yn dilyn.

## RAFFL
Mae llawer o'r arddangoswyr wedi cyfrannu darnau o'u gwaith at y raffl. Dyma'ch cyfle i fynd â darn o'r Ŵyl adref - ac i ennill bargen y penwythnos! Bydd tocynnau ar werth wrth y Ddesg Groeso gydol dydd Sadwrn ac ar fore dydd Sul. Tynnir y raffl ar ddydd Sul yn ystod y seremoni gau yn y Neuadd Fawr.

Bydd poteli swfenîr o'r Ŵyl, a wnaethpwyd gan fyfyrwyr Coleg Sir Gâr, Caerfyrddin, ar werth wrth y Ddesg Groeso. Bydd darnau sydd wedi cael eu tanio yn yr odynau hefyd ar werth - rhoddir manylion ar y bordiau tu allan neu holwch wrth y Ddesg Groeso.

## CLAYTOPIA (Piazza)
An activities tent where all visitors can enjoy an experience with clay. Staff will be on hand to demonstrate some simple techniques and allow little (and bigger!) hands to create something made of clay to take home.
Please note parents/carers must accompany children at all times in this area.
**Open Sat 10am - 5pm, Sun 10am - 4pm**

## RAKU KILN (Chapel Court)
This year Rob Whitfield will be running a raku kiln, where pre-made bowls will be available at low cost for you to decorate and watch being raku fired - make a D.I.Y Festival Souvenir bowl!

## POTTERS SURGERY (Pottery Studio, level1)
Joe Finch and David Small will be running a Potters Surgery during the weekend showing pottery tips, tools and techniques they have learnt and acquired over a combined 100 years of potting. For times, please ask Reception.

## TRADE TENT DEMONSTRATIONS (Chapel Court)
Potclays, in conjunction with Todd Hickerson and Tom Knowles Jackson, will be showcasing demonstrations of Mayco products and the new McMeekin momentum wheel. For details of times, please see the boards outside the Trade Stand Marquee or ask at the Festival reception.
See also Student Demonstrations.

## SATURDAY NIGHT ENTERTAINMENT
**(Theatre Bar)**
Live music from 9pm upstairs in the Arts Centre. Tongue 'n Groove play a bit of everything from Funk, Soul, Rhythm & Blues to Rock & Roll. This will be followed by DJ Badly.

## RAFFLE
Many demonstrators have donated a piece of work to the raffle. This is your opportunity to take a piece of the Festival home - and to get the bargain of the weekend! Tickets will be on sale at the Reception Desk throughout Saturday and on Sunday morning. The raffle will be drawn on Sunday during the closing ceremony in the Great Hall.

ICF souvenir bottles made by students at Coleg Sir Gâr, Carmarthen, will be on sale at the Festival reception. Pieces from the kiln firings will also be on sale-details will be given on the chalkboards outside or ask at the Festival reception.



# Arddangoswyr

## Patia Davis (y DU)



'Roedd Patia Davis yn fyfyrwraig i Mick Casson. Heddiw mae'n creu priddwaith yn Wobage, wedi'i addurno gyda slip ochr yn ochr â phorslen sglein sy'n cael ei danio ar dymheredd uchel. Gwnaethpwyd Patia yn Gymrawd o'r CPA yn 2015, ac mae hi wedi arddangos ei gwaith yn y DU, Siapan ac Ewrop. Bydd Patia yn dangos ei phroses o drin arwynebedd ei nwyddau domestig sef platiau, dysglau a chwpanau. Yn defnyddio ei throell gic a phorslen Limoges, bydd Patia yn arddangos sut i daflu'n glocwedd ac yn wrthglocwedd er mwyn creu ffitiadau sgriw ar ei jariau a photeli cloriedig.

## Kaku Hayashi (Siapan)



Kaku Hayashi yw un o seramegyddion benywaidd mwyaf blaenllaw Siapan. Mae'n creu ffurfiau cerfluniol ar raddfa fawr a ysbrydolir gan natur. Datblygodd broses i gyflymu'r proses sychu trwy ychwanegu sylwedd mwnol o wydr folcanig 'kan-taro', at y clai. Yn 1992, derbyniodd Kaku Hayashi ddiagnosis o gancr; fodd bynnag, diflannodd y tiwmor yn sydyn o'i wirfodd ei hun. Cafodd y profiad effaith fawr arni a dechreuodd ymddiddori yn y syniad o gylch bywyd ac angau, gan greu darnau cylch sfferaidd. Dychmygodd 'Sero' fel y 'Dechrau a'r Diwedd', 'y Presennol a'r Gorffennol', ac 'Anfeidredd' gan fod ei ffurf yr un peth â 'Chylch' ('Wa' mewn Siapanaeg).

## Ashraf Hanna (yr Aifft/y DU)



Ganwyd Ashraf Hanna yn El Minia, yr Aifft, a bellach mae'n byw ac yn gweithio yn Sir Benfro, Gorllewin Cymru. Astudiodd Ashraf Ddylunio Theatr yn Central Saint Martins yn Llundain cyn darganfod clai ym 1996. Ar ôl sefydlu ymarfer llwyddiannus mewn serameg stiwdio, mynychodd y Coleg Celf Brenhinol rhwng 2009-11, gan ennill MA mewn serameg a gwydr. Cynrychiolir ei waith mewn nifer o gasgliadau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys y V&A, Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Wydr Ernsting Stiftung Alter Hof Herding. Mae'n creu llestri cerfluniol a adeiledir â'r llaw yn defnyddio palet cynnil o slipiau pur a chlai staenedig.

## Brendan Hesmondhalgh (y DU)



Mae Brendan Hesmondhalgh yn fwyaf adnabyddus am ei gerfluniau serameg ac efydd unigryw, a wneir â'r llaw, o anifeiliaid. Yn defnyddio slabiau o glai neu gwyr cerfluniol, mae Hesmondhalgh yn lapio, yn haenu ac yn rheoli'r cyfrwng i greu darnau unigryw sy'n cyfleu elfennau o gymeriad, ffurf a symudiad pob creadur unigol. Cafodd ei eni yn Sir Gaerhirfryn yn Lloegr ym 1973 a threuliodd ychydig o amser yng Ngogledd Cymru cyn ymgymryd â chwrs serameg gerfluniol yng Ngholeg Celf Caeredin ym 1994. Mae'r arwynebedd yn elfen bwysig yn ei waith, ac mae'n ei ddatblygu trwy ychwanegu lliw a marciau cyfeiriol a gweadol i loywi pob ffurf.

## Rebecca Hutchinson (UDA)



Mae gweithiau cerfluniol a safle-penodol Rebecca Hutchinson yn cael eu dylanwadu gan ddeinameg ecosystem a materion amgylcheddol. Mae hi wedi derbyn Gwobr Artist New England ac mae'n gymrawd o Sefydliad Pollock-Krasner, Sefydliad Puffin, Comisiwn Diwylliannol Virginia, Cyngor Celfyddydau Gogledd Carolina a Chomisiwn Celfyddydau Virginia. Mae hi wedi arddangos yn helaeth yn UDA ac Ewrop. Yn defnyddio deunyddiau a phrosesau serameg traddodiadol a chyfoes, mae ei gwaith yn ffocysu ar barch tuag at broses a'r dylanwadau di-ddiwedd a ganfyddir ym myd natur. Bydd Rececca yn adeiladu strwythur clai safle-penodol yn defnyddio papur ailgylchedig.

# Demonstrators

## Patia Davis (UK)



Patia Davis was a student of Mick Casson's. She makes slip decorated earthenware alongside high-fired ash and feldspathic glazed porcelain at Wobage today. Patia was made a Fellow of the CPA in 2015, and has exhibited in the UK, Japan and Europe. Patia will demonstrate her approach to the surface treatment of her domestic flatware platters, dishes and bakers. Using her kick wheel and Limoges porcelain, Patia will demonstrate throwing clockwise and anti-clockwise to create screw threaded fittings on her lidded jars and bottles.

## Kaku Hayashi (Japan)



Kaku Hayashi is one of the leading female ceramicists in Japan. She makes large scale sculptural forms inspired by nature. She developed a process to speed up the drying process adding a volcanic glass mineral substance 'kan-taro', to the clay. In 1992, Kaku Hayashi was diagnosed with cancer; however, the tumour suddenly disappeared of its own accord. The experience affected her profoundly and she became concerned with the cycle of life and death and began making spherical ring pieces. She imagined 'Zero' as the Beginning and Ending', 'Present and Past', and 'Infinity' since its form is same as 'Ring' (Japanese 'Wa').

## Ashraf Hanna (Egypt/UK)



Ashraf Hanna was born in El Minia, Egypt and is now living and working in Pembrokeshire, West Wales. Ashraf initially studied Theatre Design at Central Saint Martins in London before discovering clay in 1996. After establishing a successful practice in studio ceramics, he attended The Royal College of Art between 2009-11, gaining an MA in ceramics and glass .His work is represented in a number of public and private collections including the V&A, the National Museum of Wales and Ernsting Stiftung Alter Hof Herding Glass Museum. He makes hand built sculptural vessels using a restrained palette of refined slips and stained clays.

## Brendan Hesmondhalgh (UK)



Brendan Hesmondhalgh is best known for his unique handmade ceramic and bronze sculptures of animals. Using slabs of clay or sculptural wax, Hesmondhalgh wraps, layers and controls the medium to create one-off pieces that capture elements of character, form and movement of each individual creature. He was born in Lancashire, England in 1973 and spent some time in North Wales before studying at a sculptural ceramic course at Edinburgh College of Art in 1994. The surface remains a focused element that he continues to develop, adding colour, directional and textural marks to enhance each form.

## Rebecca Hutchinson (USA)



Rebecca Hutchinson's sculptural and site-specific works are influenced by ecosystem dynamics and environmental concerns. She is a New England Artist Award recipient and fellowship recipient from The Pollock-Krasner Foundation, The Puffin Foundation, Virginia Cultural Commission, The North Carolina Arts Council and The Virginia Commission of the Arts. She has exhibited widely in the USA and Europe. Using traditional and non-traditional ceramic materials and processes, her work focuses on the respect for process and the endless influences found in nature. She will be building a site-responsive clay structure using recycled paper.

# Arddangoswyr

### Wendy Lawrence (y DU)



Derbyniodd Wendy Lawrence radd BA mewn dylunio 3D (Serameg) o Brifysgol Sir Gaerhirfryn Ganolog ym 1998. Mae hi'n diwtor serameg ac mae wedi cymryd rhan mewn symposia a gweithdai ym Mhrydain, Ewrop ac America. Mae hi'n ymddiddori yn y gweadeddau ffurfiau daearegol naturiol a welir ganddi wrth iddi gerdded yng Ngogledd Cymru lle mae'n byw (Sir Ddinbych). Mae hi'n arbrofi gyda sglein gan ddefnyddio sylweddau hynod adweitheddol er mwyn creu arwynebau gweadol cyfoethog i ysgogi strwythur naturiol strata'r graig. Mae'n tanio'r gwaith i dymheredd o 1260 gradd C mewn odyn drydan, yn amrywio'r atmosffer o ocsidiad i rydwythiad trwm. Bydd Wendy yn cerfio cerflun o floc solet mawr o glai.

### Chen Min (Tsieina)



Daw Chen Min o Ddinas Zhaotong, Talaith Yunnan. Astudiodd yn Institiwt Serameg Jingdezhen ac mae'n byw 'nawr yn Ninas Jingdezhen, Talaith Jiangxi. Mae wedi gweithio yn y diwydiant serameg ers 20 mlynedd, yn arbenigo mewn amrediad o dechnegau addurnol yn cynnwys cerfio basgerfiad a gwaith brwsh a phaentio traddodiadol. Ar hyn o bryd mae hi'n uwch ddylunydd celf serameg yn Nhalaith Jiangxi, uwch ddylunydd celf yn Jingdezhen ac yn aelod o Gymdeithas Celf Serameg Hong Kong. Ers 2002 mae hi wedi ennill llawer o wobrau arian ac aur mewn arddangosfeydd celf a chrefft a serameg yn Tsieina. Arddangosir ei gwaith yn Ffair Borslen Tsieina a'r Theatr Genedlaethol yn Beijing. Bydd Chen Min yn arddangos ei cherfio a gwaith brwsh ar deils porslen.

### Phil Rogers (y DU)



Wedi'i eni yng Nghymru, mae Phil wedi byw a gweithio yn Rhaeadr, Canolbarth Cymru ers 1978. Mae ei botiau wedi eu taflu â'r llaw rhan amlaf ac maent yn ymarferol yn ôl traddodiad Eingl-Ddwyreiniol Bernard Leach. Mae'n defnyddio sglein halen a sgleiniau lludlyd yn ei waith, yn rhoi amrediad o liwiau trwy lwydion a gwyrddion seladon i orennau cynnes a tenmokus tywyll cyfoethog. Yn ffigwr dylanwadol ym maes crochenwaith Prydeinig, mae ef hefyd wedi ysgrifennu llawer o lyfrau ar serameg. Mae ef yn ddiweddar wedi datblygu ei waith 'Buncheong' a ysbrydolir gan Gorea yn y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg. Bydd Phil yn rhoi arddangosiadau taflu yn defnyddio clai du.

### Ilona Romule (Latfia)

Ganwyd Ilona Romule yn Riga (Latfia) i mewn i deulu o artistiaid. Graddiodd o Academi Gelf Latfia ym 1985 (MFA mewn Serameg) ac ers hynny mae wedi gweithio fel artist ar ei liwt ei hun yn ei stiwdio yn Riga ac yn y Stiwdio Serameg Ryngwladol yn Kecskemét (Hwngari) ac yn Tsieina. Mae hi wedi bod yn arwain gweithdai creu mowldiau-plastr, lithoffan a phaentio tsieni mewn Prifysgolion a Chanolfannau Celfyddydol yn Latfia, Hwngari, UDA,



Tsieina, Awstralia, Twrci, Israel, Taiwan, Bali a Seland Newydd. Mae'n gweithio gyda phorslen tymheredd uchel ac yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffigwr. Bydd hi'n dod â cherflun i arddangos ei thechnegau paentio sy'n cynnwys addurniad gloyw.

### Crochenwyr o Uzbekistan

Mae gan Uzbekistan draddodiad serameg cyfoethog lle mae technegau yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf yn yr ardaloedd sy'n cynhyrchu crochenwaith. Bydd y meistri ar eu crefft Alisher Rakhimov (Tashkent) Abdulla Narzullaev (Bukhara) ac Alisher Nazirov (Rishtan) yn arddangos eu technegau addurno slip, yn ogystal ag adeiladu â'r llaw.

### Alisher Rakhimov



Ganwyd y meistr ar serameg Alisher Rakhimov yn Tashkent i mewn i deulu gyda thraddodiad hir (o leiaf chwe chenhedlaeth) o'r seramegyddion enwocaf yn Uzbekistan. Mae ef wedi arddangos yn Siapan, yr Almaen, UDA ac Israel a bu'n rhan o wahanol brosiectau UNESCO i adfywio technolegau serameg o'r gorffennol.

# Demonstrators

### Wendy Lawrence (UK)



Wendy Lawrence received a BA in 3D design (Ceramics) from the University of Central Lancashire in 1998. She is a ceramic tutor and has participated in symposia and workshops in Britain, Europe and America. She is interested in textures of natural geological forms which she observes on her walks in North Wales where she lives (Denbighshire). She experiments with glaze using highly reactive substances to create rich textural surfaces to evoke the natural structure of rock strata. She fires the work to 1260 degrees C in an electric kiln, varying the atmosphere from oxidation to heavy reduction. Wendy will carve a sculpture from a large solid block of clay.

### Chen Min (China)



Chen Min is a native of Zhaotong City, Yunnan Province, she studied at Jingdezhen Ceramic Institute and now lives in Jingdezhen City, Jiangxi Province. She has worked in the ceramic industry for 20 years, specializing in a range of decorative techniques including bas-relief carving and traditional brushwork and painting. She is currently a senior ceramic art designer in Jiangxi Province, a senior art designer in Jingdezhen and a member of the Hong Kong Ceramic Art Association. Since 2002 she has won many gold and silver awards at arts and crafts and ceramic exhibitions in China. Her works are on display at the China Porcelain Fair and the Beijing National Grand Theatre. Chen Min will demonstrate her carving and brushwork on porcelain tiles.

### Phil Rogers (UK)



Born in Wales, Phil has lived and worked in Rhayader, mid Wales since 1978. His pots are usually hand thrown and functional in the Anglo-oriental tradition of Bernard Leach. He uses both salt-glaze and ash glazes in his work, giving a range of colours through greys and greens of celadon to warm oranges and rich dark tenmokus. An influential figure in British pottery, he has also written many books on ceramics. He has recently developed his 'Buncheong' work inspired and influenced by 15th and 16th century Korea. Phil will give throwing demonstrations with black clay.

### Ilona Romule (Latvia)

Ilona Romule was born in Riga (Latvia) into a family of artists. She graduated from the Latvian Art Academy in 1985 (MFA in Ceramics) and has since worked as a freelance artist at her studio in Riga and at the International Ceramics Studio in Kecskemét (Hungary) and in China. She has been leading plaster-mold making, lithophane and China painting workshops at Universities and Art Centres in Latvia, Hungary, USA,



China, Australia, Turkey, Israel, Taiwan, Bali and New Zealand. She works with high temperature porcelain and mainly concentrates on the figure. She will bring a sculpture to demonstrate her painting techniques which includes lustre decoration.

### Potters from Uzbekistan

Uzbekistan has a rich ceramic tradition where techniques are passed on through generations in pottery producing areas. Master potters Alisher Rakhimov (Tashkent) Abdulla Narzullaev (Bukhara) and Alisher Nazirov (Rishtan) will demonstrate their slip decorating techniques, as well as hand building.

### Alisher Rakhimov



Master Ceramist Alisher Rakhimov was born in Tashkent into a family with a long tradition (at least six generations) of the most famous ceramics masters in Uzbekistan. He has exhibited in Japan, Germany, USA and Israel and been part of various UNESCO projects to revive ceramic technologies of the past. In

# Arddangoswyr

Yn 2004 cynhyrchodd bump o ffilmiau dogfen ar gyfer UNESCO ac yn 2006 golygodd yr argraffiad Saesneg newydd o lyfrau gan ei dad Mukhitdin Rakhimov (1903-1985) Artistic Ceramics of Uzbekistan ac Architectural Ceramics of Uzbekistan. Yn 2012 derbyniodd y teitl o Weithiwr Celf Anrhydeddus Uzbekistan. Cynhaliwyd nifer o arddangosfeydd yn ei stiwdio yn Tashkent ac arddangosir ei weithiau yn yr Amgueddfa Gelf Gymhwysol yn Tashkent.

### Alisher Nazirov



Alisher Nazirov o Rishtan yn Nwyrain Uzbekistan yw un o'r seramegyddion ac athrawon uchaf ei barch yn Uzbekistan. Yn dechrau yn 12 oed, astudiodd gyda nifer o feistri mawr Uzbek. Yn y cyfnod Sofietaidd ef oedd y prif artist yn Ffatri Serameg Gelf Rishtan. Treuliodd Nazirov amser yn Siapan yng nghanol y 1990au ac ymgymerodd â chyfnod preswyl gydag Isojichi Asakura, meistr crochenwaith enwog ysgol Kutani. Cyfraniad Nazirov at gynnal treftadaeth ddiwylliannol Uzbekistan oedd i sefydlu ysgol/gweithdy sef yr Ysgol 'Usto-Shogird' [Meistr-Myfyriwr]. Mae ef hefyd wedi bod ar y blaen wrth adfer ffurfiau a dyluniadau traddodiadol hynafol serameg Rishtan, gan ennill iddo'r teitl 'Ceidwad y Traddodiadau' yn 2016. Arddangosir ei waith mewn amgueddfeydd yn Uzbekistan, Rwsia ac Amgueddfa Serameg Asakura-san yn Komatsu.

### Abdulla Narzullaev



Ganwyd Abdulla Narzullaev i mewn i deulu gydag o leiaf 6 chenhedlaeth o feistri serameg a brodwaith o'i flaen. Daw o Bukhara, rhanbarth sy'n adnabyddus am ei serameg wydrog liwgar. Dysgodd ei grefft oddi wrth ei dad, yn dechrau'n 7 oed. Mae'n cyfaddef na fu erioed yn ystyried unrhyw broffesiwn arall gan fod crefft yn ei deulu ef yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae Narzullaev wedi arddangos ei waith mewn dros 100 o arddangosfeydd rhyngwladol, gan gynnwys UDA, Ffrainc, yr Almaen, Siapan, Pacistan a Kuwait. Ym 1992 agorodd amgueddfa serameg yn Gijduvan, sydd hefyd yn gartref i weithdai sy'n cynhyrchu serameg Gijduvan draddodiadol.

### Terry Davies (y DU/yr Eidal)



Ganwyd Terry Davies yn nhref yr Amwythig, ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Dechreuodd ymddiddori mewn clai pan 'roedd yn 11 oed ac erbyn iddo gyrraedd 19 oed, 'roedd yn gwybod sut i daflu a rheoli clai i mewn i unrhyw ffurf a fynnai. Ymestynwyd ei hyfforddiant artistig ymhellach yn sgil ei deithio eang, yn dechrau gyda chyfnod ar Ynys Werdd Dorset, lle dysgodd dechnegau tanio halen a soda gyda Guy Sydneham. Ar ôl treulio blwyddyn ym mhentref crochenwaith La Borne yn Ffrainc, 'roedd ei angerdd tuag at danio gyda choed wedi'i sefydlu. Mae'n adnabyddus am ei daniadau perfformio ysblennydd ledled Ewrop. Bydd Terry yn adeiladu hyd at 8 odyn fach o gotwm, papur a chlai o gwmpas ffrâm Tipi bambŵ.

### Liming Zhang (Tsieina)



Graddiodd Liming Zhang o Adran Gerflunwaith Prifysgol Serameg Jingdezhen yn 2011. Ynghyd â Mr. Masakuzu Kusakabe adeiladodd odyn goed ddi-fwg gyntaf Tsieina yn y Gweithdy Crochenwaith yn Jingdezhen yn 2008. (Bu Masakuzu Kusakabe yn arddangos ei waith yn yr Ŵyl Serameg Ryngwladol yn 2009). Yn 2010, cynhyrchodd odyn goed fechan y gellid ei defnyddio i danio, a dyma oedd ei ddyluniad ar gyfer ei raddio. Yn 2012, dechreuodd astudio gyda'r artist o Taiwan Wu Qizheng. Yn 2016, buont yn sefydlu eu stiwdio eu hunain yn Jingdezhen. Mae Liming yn adnabyddus am ei odynau bychain sy'n cael eu tanio â choed, y gellid eu hadeiladu gan grochenwyr amatur a phroffesiynol fel ei gilydd. Bydd Liming yn adeiladu dwy odyn fechan, un i'w thanio gyda siarcol o'r ardal leol a'r llall i'w thanio gyda choed.

### Nic Collins (y DU)



Ar ôl hyfforddi yng Ngholeg Celf Derby, bu Nic Collins yn ehangu ei brofiad trwy weithio fel taflwr mewn crochendai yn yr Eidal a'r Almaen. Ym 1988 symudodd i Ddyfnaint a sefydlodd ei weithdy cyntaf yn Powdermills; yn 2000 symudodd i Moretonhamstead. Ymatebodd i'r amgylchedd gwledig gwyllt trwy greu

# Demonstrators

2004 he was the author of five documentary films for UNESCO and in 2006 he edited the new English edition of the books by his father Mukhitdin Rakhimov (1903-1985) Artistic Ceramics of Uzbekistan and Architectural Ceramics of Uzbekistan. In 2012 he received the title of Honoured Art Worker of Uzbekistan. His studio in Tashkent has held several exhibitions and his works are in the Museum of Applied Art in Tashkent.

### Alisher Nazirov



Alisher Nazirov from Rishtan in Eastern Uzbekistan is one of Uzbekistan's most celebrated ceramicists and teachers. Starting at the age of 12 he studied with some great Uzbek masters. In Soviet times he was the main artist at the Rishtan Art Ceramics Factory. Nazirov spent time in Japan in the mid-1990s and did an internship with Isojichi Asakura, the famous pottery master of Kutani school. Nazirov's contribution to maintaining the cultural heritage of Uzbekistan was to found a workshop-school the 'Usto-Shogird' [Master-Student] School. He has also been at the forefront of restoring the ancient traditional forms and designs of Rishtan ceramics, earning him the title of 'Keeper of the Traditions' in 2016. His works are included in museums in Uzbekistan, Russia and the Ceramics Museum Asakura-san in Komatsu.



### Abdulla Narzullaev

Abdulla Narzullaev was born into a family with at least 6 generations of ceramics masters and embroiderers before him. He is from Bukhara, a region renowned for its colourful glazed ceramics. He learned from his father starting at 7 years old. He admits that he never considered any another profession as craft in his family was passed from generation to generation. Narzullaev has exhibited his work in over a 100 international exhibitions, including in the USA, France, Germany, Japan, Pakistan and Kuwait. In 1992 he opened a museum of ceramics in Gijduvan, which also houses workshops for producing traditional Gijduvan ceramics.




### Terry Davies (UK/Italy)

Terry Davies was born in the Welsh border town of Shrewsbury, Shrophire. His passion for clay began aged 11 and by the time he was 19 years old, he knew how to throw and control clay into any form needed. He gained a further artistic form of training from his extensive travels, starting with a period on Green Island Dorset, where he learned the techniques of salt and soda firing with Guy Sydneham. After a years' stay in the French pottery village of La Borne, his passion for wood firing had been established. He is known for his spectacle performance firings throughout Europe. Terry will build up to 8 small kilns from cotton, paper and clay around a bamboo Tipi frame. The kilns will be approximately two meters high and fueled by wood.

### Liming Zhang (China)

Liming Zhang graduated from the Sculpture Department of Jingdezhen Ceramic University in 2011. Together with Mr.Masakuzu Kusakabe he built China's first smokeless wood kiln at The Pottery Workshop in Jingdezhen in 2008. (Masakuzu Kusakabe was a demonstrator at the ICF in 2009). In 2010, he produced a mini wood kiln which could be used for firing that became his design for graduation. In 2012, Zhang studied sculptural kilns with Taiwan artist Wu Qizheng. In 2016, they set up our own studio in Jingdezhen. He has become known for his miniature wood-fired kilns which can be



built by amateur and hobby potters. Liming is building two mini kilns, one to be fired with locally sourced charcoal and the other to be fired with wood.



### Nic Collins (UK)

After training at Derby College of Art, Nic Collins widened his experience by working as a thrower in potteries in Italy and Germany. In 1988 he moved to Devon and set up his first workshop at Powdermills and in 2000 moved to Moretonhamstead. He responded to the wild rural environment by making pots often with locally sourced clay and wood firing techniques. He is influenced by older pottery traditions and kilns as well as adaptations and experiments to create contemporary work. He is part of a group of experimental wood-firers including the potters, Clive Bowen and Svend Bayer who sometimes assist at each other's kiln firings. For ICF 2019, Nic will be making a ground hog type wood fired cross draft kiln. This activity is sponsored by Cromartie Hobbycraft.

potiau, yn aml gyda chlai o'r ardal leol ac yn defnyddio technegau tanio coed. Mae'n cael ei ddylanwadu gan draddodiadau crochenwaith ac odynau hŵn yn ogystal ag addasiadau ac arbrofion i greu gwaith cyfoes. Mae'n rhan o grŵp o danwyr-coed arbrofol yn cynnwys y crochenwyr Clive Bowen a Svend Bayer sydd weithiau'n cynorthwyo ei gilydd i danio eu hodynau. Yn ystod yr Ŵyl eleni bydd Nic yn creu ei odyn arbennig ei hun sy'n cael ei thanio â choed. Noddir y gweithgaredd hwn gan Cromartie Hobbycraft.

Cromartie

## Punk Raku (Ffrainc)



Dechreuodd **Jean-François Bourlard** ei hyfforddiant proffesiynol mewn taflu ar y droell draddodiadol ym 1996, yng Nghanolfan Hyfforddiant Ryngwladol EMA CNIFOP ar gyfer Crefftau a Serameg yn Saint-Amand-en-Puisaye, Ffrainc. Enillodd brofiad mewn gweithdai ledled Ffrainc a'r Almaen, tan 1999 pan ddychwelodd at dref ei fagwraeth, Sadirac, i sefydlu ei ymarfer ei hun. Yn 2012 enillodd Wobr Sefydliad Ateliers d'Art de France a dalodd am ragor o arbrofi yn ei waith ac a enillodd gydnabyddiaeth ryngwladol i 'punk raku'. Graddiodd Valérie Blaize o'r Ysgol Gelfyddydau Cain, Bordeaux (celfyddydau gweledol) yn 2017. Ers 2014, mae Jean-François Bourlard a **Valérie Blaize** wedi gweithio efo'i gilydd, yn datblygu eu perfformiad "Raku Punk". Byddant yn creu perfformiad yn arbennig ar gyfer yr Ŵyl ar y nos Sadwrn, i ddechrau ar ôl machlud yr haul ac i bara am 45 munud.



## Arddangosiadau gan fyfyrwyr

Am amseroedd, holwch wrth y Ddesg Groeso os gwelwch yn dda.

## Natasha Parker-Edwards



BA(Anrhydedd) Celfyddydau Creadigol: Celf a Dawns
Ysgol Gelf a Dylunio Bath
Perfformiad: 'Femme Maison (Ar ôl Bourgeois)'
Mae Natasha yn anelu at integreiddio agweddau o'i hymarfer dawns gyfoes i mewn i faes celf gyfoes 3D. Trwy archwilio'r byd mewn modd seicoddaearyddol, mae'n anelu at ystyried deunyddiau ac arwynebau mewn cysylltiad â'r corff dynol, yn defnyddio'n bennaf y synnwyr 'cyffwrdd'. Bydd Natasha yn cyflwyno 'Femme Maison (Ar ôl Bourgeois)' amser cinio yn y Theatr ar Ddydd Sadwrn a Dydd Sul.

## Elin Hughes



BA Serameg, Prifysgol Fetropolitanaidd Caerdydd
Gweithdy: Taflu a (dad) adeiladu.
Mae Elin yn ymddiddori mewn dadadeiladu ac ailgyflunio ffurfiau a deflir i archwilio tensiwn yn y clai er mwyn adeiladu llestri cerfluniol deinamig. Bydd hi'n dangos sut mae'n taflu ei chydrannau cerfluniol ac yn ail sut mae'n gosod y cydrannau hyn at ei gilydd pan maent yn galed fel lledr. Mae'r ail hanner hwn yn broses cyffrous, anrhagweladwy wrth iddi weithio gydag arlliwiau pob ffurf newydd, yn gweithio'n ddifyfyr mewn ymateb i graidd disgyrchiant y clai sy'n symud o hyd.

## Ross Andrews



MRES Serameg.
Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
Gweithdy: Crefft ddigidol mewn cysylltiad â phroses sgil-llaw traddodidol.
Mae Ross yn ystyried cwestiynau o ymgorfforiad yn nhermau'r 'cyrhaeddiad' estynedig a geir yn sgil technolegau megis y rhyngrwyd. Ffurfiwyd ei ymarfer trwy gyfuno technoleg ddigidol, meddalwedd modelu 3D, CAD a'r sgiliau traddodiadol analog o greu mowldiau a chastio serameg. Mae'r gwaith hwn yn cymryd tir a bortreadir yn ddigidol, yn yr achos hwn dyffrynnoedd Bannau Brycheiniog, ac yn ei drosi i mewn i lestr. Bydd yr arddangosiad yn dangos y sgil o dywallt ac agor mowld plastr, o buro enghreifftiau sydd wedi eu castio a'u tanio, yn ogystal ag arddangosiad fideo o'r proses digidol y tu ôl i'r gwrthrychau printiedig 3D.

# Demonstrators

## Punk Raku (France)



**Jean-François Bourlard** began his professional training of traditional wheel-throwing in 1996, at the EMA CNIFOP International Centre for Training in Crafts and Ceramics in Saint-Amand-en-Puisaye, France. He gained experience in workshops throughout France and Germany, until 1999 when he returned to his hometown of Sadirac to set up his own practice. In 2012 he won the Ateliers d'Art de France Foundation Award that funded further experimentation in his work and launched punk raku into international recognition. **Valérie Blaize** graduated from the Fine Arts School, Bordeaux (Visual arts) in 2017. Since 2014, Jean-François Bourlard and Valérie Blaize have worked together, developing their "Raku Punk" performance. They will create a performance especially for the ICF for Saturday night to begin after dark on Saturday and last 45 minutes.

## Student Demonstrations

For times please ask the Festival Reception.

### Natasha Parker-Edwards




BA(Hons) Creative Arts: Art and Dance
Bath School of Art and Design
Performance: 'Femme Maison (After Bourgeois)'
Natasha aims to integrate aspects of her contemporary dance practice into the field of 3D contemporary art. Investigating the world in a psychogeographical manner, she aims to explore materials and surfaces in relation to the human body, primarily using the sense 'touch'. Natasha will be presenting 'Femme Maison (After Bourgeois)' during lunchtimes in the Theatre on Saturday and Sunday.

### Elin Hughes



BA Ceramics, Cardiff Metropolitan University
Workshop: Throwing and (de)constructing.
Elin is interested in deconstructing and reconfiguring thrown forms to explore tension in the clay in order to build dynamic sculptural vessels. She will demonstrate throwing her sculptural components and secondly the constructing together of these sections when leather hard. This second half is an exciting, unpredictable process as she works with the nuances of each new vessel form, improvising and working in response to the clay's shifting centre of gravity.

### Ross Andrews



MRES Ceramics.
Cardiff School of Art and Design
Workshop: Digital craft in collaboration with traditional hand-skill process.
Ross is investigating questions of embodiment in terms of the extended 'reach' afforded through technologies such as the internet. His practice took shape through the combination of digital technology, 3D modelling software, CAD and the analogue traditional skills of mould making and casting ceramics. This work directly takes digitally captured terrain, in this instance the Welsh valleys of the Brecon Beacons and translates it into a vessel. The demonstration will show the skill of pouring and opening a plaster mould, refining of pre-cast and fired examples as well as a video demonstration of the digital process behind the 3D printed objects.

# Darlithoedd

## Matthew Blakely (y DU)



**Teitl y Ddarlith: 'Tirweddau Serameg - Potiau a wnaethpwyd o greigiau a chleiau Prydeinig.'**
Mae gwaith Matthew yn ystyried y cysylltiadau rhwng serameg a daeareg a llefydd. Mae'n creu darnau'n gyfangwbl o samplau daearegol a gasglwyd mewn llefydd penodol o gwmpas y wlad. Mae'n defnyddio'r deunyddiau hyn mewn ffurf mor bur â phosibl: mae creigiau yn cael eu gwasgu â'r llaw, eu malu a'u cyfuno i greu'r sgleiniau; defnyddir cleiau'n aml yn syth o'r tir. Mae'r gwaith hwn yn cael ei danio yn defnyddio coed gwastraff sydd wedi tyfu lle mae'n byw yn Sir Gaergrawnt. Mae'r proses tanio yn trawsffurfio'r sgleiniau hyn gan gynhyrchu nodweddion eithriadol a fyddai'n amhosibl eu cyflawni mewn unrhyw ffordd arall.

## Patricia Fay (UDA)



**Teitl y Ddarlith: 'Yn Nwylo'r Crochenydd: Olrhain Treftadaeth Ddiwylliannol yn y Caribï Cyfoes.'**
Mae Patricia Fay yn Bennaeth Celf mewn Serameg ac yn Gyfarwyddwraig Gynorthwyol yn Ysgol Gerddoriaeth a'r Celfyddydau Bower ym Mhrifysgol Arfordir Gwlff Fflorida yn Fort Myers, Fflorida, UDA. Mae ei llyfr diweddar *Creole Clay: Heritage Ceramics in the Contemporary Caribbean* yn cofnodi pum mlynedd ar hugain o ymchwil gyda chrochenwyr yn y rhanbarth. Trwy ddelweddau, cyfweliadau a fideo bydd ei darlith yn ystyried yr etifeddiaeth fyd-eang anhygoel sydd wedi ei diogelu yn nwylo crochenwyr Caribïaidd cyfoes.

## Ingrid Murphy (Iwerddon/Cymru)



**Teitl y Ddarlith: 'Gweledig ac Anweledig'**
**Ers 2015 mae Ingrid wedi arwain grŵp** ymchwil Fab-Cre8 y Brifysgol ar gyfer ymchwil cymhwysol mewn technolegau digidol. Mae hi'n defnyddio prosesau traddodiadol yn ogystal â rhai digidol i greu arteffactau rhyngweithiol sy'n anymarferol ond sy'n gweithio. Mae'n cydweithio gydag eraill yn cynnwys technolegwyr a pheirianwyr. Mae Ingrid yn defnyddio technolegau sganio a chyffyrddiadol i ystyried y potensial o ffurf yn troi'n sain a sain yn creu ffurf. Bydd Ingrid yn siarad am ei harddangosfa gyfoes 'Gweledig ac Anweledig' yn Oriel 1.

## Magdalene Odundo (Kenya, y DU)



**Teitl y Ddarlith 'Taith Pethau'.**
